# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sandford**

**50 Gronant Road**
**Prestatyn**
**LL19 9ND**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Sandford

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pearlcare (Sandford) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Mehefin 2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael gofal effeithiol iawn i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys dewisiadau, nodau ac anghenion cyfredol. Mae gan y bobl reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd yn y cartref; y décor; eu hystafelloedd gwely; y bwydlenni; y gweithgareddau a'r teithiau allan. Mae'r bobl yn canmol y gofal y maent yn ei gael a'r cynnydd y maent yn ei wneud yn byw yno. Mae rhai arferion wedi cael eu canmol gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref a chânt eu defnyddio fel enghreifftiau i lywio eraill yn y sector gofal.

Mae'r cartref yn lân, yn olau, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae canllawiau cydio yn y coridorau er mwyn i'r bobl fynd o amgylch yn ddiogel ac mae dewis o ystafelloedd i'r bobl dreulio eu hamser ynddynt. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw a'i ddiweddaru'n barhaus; mae'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar fel eu bod yn olau ac yn fwy modern; mae technoleg rithwir yn darparu cerddoriaeth hiraethus a thawel o amgylch y cartref; mae'r ardd wedi cael ei llunio i ddarparu lliw ac arogl da.

Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent wedi cael eu hyfforddi'n dda; maent yn mwynhau gweithio yn y cartref ac mae ganddynt barch mawr at ei gilydd a'r tîm rheoli. Caiff darparwr y gwasanaeth wybodaeth gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol; mae'n gwybod beth sy'n gweithio'n dda ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn treulio amser yn gwneud yr hyn y maent yn dymuno ei wneud. Gallant eistedd yn eu hystafelloedd neu grwydro o amgylch yr ystafelloedd cymunedol neu ddefnyddio'r gerddi. Mae'r cofnodion gofal yn nodi'r hyn sy'n bwysig i'r bobl a chaiff y wybodaeth hon ei hadlewyrchu yn y ddarpariaeth gofal, megis y staff yn dechrau sgwrs am hobïau a diddordebau unigolyn. Gwneir ymdrech i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg, gyda rhai aelodau o'r staff yn defnyddio Cymraeg sylfaenol ac roedd y rheolwr wedi cofrestru ar gyfer ymgymryd â chwrs Cymraeg. Mae arwyddion dwyieithog i'w gweld o amgylch y cartref, caiff diwylliant Cymru ei ddathlu, megis Dydd Gŵyl Dewi, a gellir darparu dogfennau yn Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd i breswylwyr a gaiff eu cynnal yn rheolaidd yn gyfle i bobl ddweud eu dweud am faterion megis yr amgylchedd, bwyd a gweithgareddau. Mae'r staff yn addasu'r broses o ddarparu gofal er mwyn bodloni dewisiadau'r bobl bob amser ac maent yn edrych ar ffyrdd i greu hapusrwydd a sicrhau llesiant.

Mae'r bobl yn iach ac yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau da am eu llesiant. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu monitro'n agos; mae systemau ardderchog ar waith i reoli a lleihau pa mor aml y mae'r bobl yn cwympo, ac mae'r cartref yn llwyddo yn y maes hwn. Mae monitro cymeriant maethol a phwysau'r bobl yn agos, yn enwedig y rhai nad ydynt yn bwyta'n dda, yn helpu'r staff i nodi problemau'n brydlon ac archwilio ffyrdd amgen i annog y bobl i fwyta, megis darparu bwydydd bys. Caiff deietegyddion a gweithwyr iechyd arbenigol eraill eu ceisio pan fo angen.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac mae'r diwylliant agored a gonest sydd wedi'i ymgorffori yn y cartref, yn ogystal ag agosatrwydd y tîm rheoli, yn galluogi'r staff i deimlo'n gyfforddus wrth godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt ar unwaith. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff fod yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau yn y cartref, gan gynnwys polisïau ar ddiogelu a chwythu'r chwiban.

Mae gan y bobl fywyd cymdeithasol a gallant dreulio eu hamser gyda'r bobl maent yn eu dewis. Dywedodd un person wrthym ei fod wrth ei fodd yng nghwmni pobl eraill a oedd yn byw yn y cartref a'i fod yn mwynhau eistedd wrth ymyl '*nice lady'* benodol. Mae'r bobl yn mwynhau ymweliadau gan eu perthnasau a all alw i mewn i'r cartref heb drefnu apwyntiad. Mae gan y gwasanaeth fws mini a chaiff teithiau eu trefnu.

Mae'r gwasanaeth yn darparu llety y mae'r bobl yn fodlon ag ef. Maent yn dewis y ffordd y maent yn dymuno i'r cartref edrych; caiff barn ar liwiau'r ystafelloedd cymunedol ei geisio cyn gwneud gwaith ailaddurno, megis y newidiadau diweddar i'r ystafell fwyta gyda'r mwyafrif o'r bobl yn dewis y lliw porffor. Mae'r planhigion yn yr ardd wedi cael eu dewis am eu lliwiau ac mae digon o leoedd i eistedd a threulio amser yn yr awyr agored. Mae'r ystafelloedd yn gyfforddus ac yn olau ac mae'r gerddoriaeth gefndir yn helpu i greu amgylchedd cartrefol a thawel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cofnodion gofal yn fanwl, yn gywir ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn ystyried pob elfen ar lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol ac yn rhoi darlun clir o'r person, ei ddiddordebau a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae'r cynlluniau gofal yn cynnwys barn y bobl a'u teuluoedd, a chânt eu hadolygu'n fisol er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn gyfredol.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth effeithiol iawn. Maent yn gwneud penderfyniadau ar eu cynlluniau eu hunain gyda'r rheolwr a chaiff y gofal ei deilwra i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau unigryw. Er bod y cynlluniau gofal yn arwain y staff, gwelsom fod menter yn cael ei ddefnyddio i addasu'r rhain pan fo angen, ac yn ddyddiol os nodir fod cyfle i ddatblygu. Dywedodd un person ei fod yn unig ond nad yw'n mwynhau cymysgu â phobl eraill yn y cartref. Aethpwyd i'r afael â hyn mewn modd sensitif ar gyflymder y person ac yn unol â'i ddewisiadau ac, o fewn dyddiau, roedd yn mwynhau cymdeithasu ag eraill yn y lolfa. Nid yw'r cynlluniau gofal yn sefydlog; maent yn newid yn barhaus wrth i nodau a dewisiadau'r bobl newid a phan wneir cynnydd. Caiff pob elfen ar ddarparu gofal ei chofnodi'n electronig ar unwaith yng nghronfa ddata'r gwasanaeth er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw beth ei fethu. Mae'r bobl yn mynychu cyfarfodydd y preswylwyr a gwelsom fod hysbysfwrdd yn cynnwys yr agenda a drafodwyd, y syniadau a awgrymwyd gan y preswylwyr ar gyfer pethau fel y fwydlen, gweithgareddau a theithiau, a'r camau gweithredu a gymerwyd i'w rhoi ar waith. Mae'r bobl wedi bod ar daith i Blackpool ac mae taith arall wedi cael ei threfnu. Mae gan y bobl ddewis a gallant ddweud eu dweud am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o fis i fis. Mae'r bobl a'u perthnasau'n disgrifio ansawdd pob agwedd ar ofal fel *'excellent'.* Mae'r perthnasau wedi'u syfrdanu o weld faint o gynnydd sydd wedi'i wneud.

Gwelsom enghreifftiau o sut mae'r bobl yn cael gafael ar ofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal a gwella eu llesiant. Gwnaethom gyfarfod â phobl y mae eu hiechyd a'u llesiant wedi gwella ers cyrraedd y cartref. Gwnaethom gyfarfod â phobl nad oeddent yn siarad wrth gael eu derbyn i'r gwasanaeth ond sydd bellach yn sgwrsio'n dda ag eraill. Mae person arall bellach yn cysgu llawer gwell ers cynnal adolygiad ar ei feddyginiaeth, wedi'i drefnu wrth gael ei dderbyn i'r gwasanaeth; mae archwaeth person arall bellach wedi gwella. Caiff achosion o gwympiadau eu rheoli'n effeithiol iawn ac mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhannu'r arfer da â chartrefi eraill. Mae'r gwasanaeth yn edrych ar anghenion y bobl yn holistaidd, gan ystyried eu hanes meddygol a chymdeithasol a'r hyn sydd wedi newid ers i lesiant person ddirywio. Mae'r bobl a'u perthnasau yn gadarnhaol iawn am ansawdd y gofal a ddarperir a'r effaith gadarnhaol amlwg ar y bobl. Dywedodd perthynas wrthym fod un person yn teimlo'n hapusach ers cryn amser.

Mae'r broses rheoli meddyginiaeth yn cael ei monitro'n agos. Gwelsom fod gwyliadwriaeth y rheolwr yn nodi problemau posibl a'i fod yn mynd i'r afael â nhw ar unwaith. Mae pob agwedd ar y cartref yn cael ei harchwilio a chaiff cymhwysedd y staff ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod arferion rhagorol ar waith.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu llety sydd wedi cael ei ddylunio er mwyn helpu'r bobl i wneud yr hyn y maent am ei wneud pan ddymunant. Mae pob rhan o'r cartref yn lân, yn daclus, yn gartrefol ac yn groesawgar. Mae pob ystafell yn hygyrch iawn gyda digon o le yn y coridorau a chanllawiau cydio. Mae lluniau wedi cael eu gosod ar y waliau er mwyn i'r bobl adnabod yr amgylchedd. Mae ardaloedd cymunedol gwahanol ar gael i'r bobl ddewis ohonynt ac mae ystafell arall yn cael ei hadnewyddu i ddarparu ardal dawel ychwanegol. Mae pob ystafell wedi cael ei haddurno'n hyfryd o ran y lliwiau a ddewiswyd gan y bobl. Mae byrddau difyrru a chyfeiriad at fywyd mewn pentref yn y cartref, megis blwch postio mawr coch, gyda'r bwriad o helpu'r bobl sydd â dementia i deimlo'n gartrefol ac yn brysur. Mae'r rheolwr bob amser yn edrych ar ffyrdd o wella bywydau'r bobl yn y cartref; gellir clywed cerddoriaeth ym mhob rhan o'r cartref ac mae goleuadau sydd wedi'u gosod mewn safleoedd addas yn ychwanegu at yr awyrgylch. Mae napcynau, matiau bwrdd a phupur a halen wedi'u gosod ar y byrddau bwyta. Mae'r rheolwr wedi dod o hyd i lestri sy'n addas ar gyfer pobl â dementia er mwyn i bawb fwynhau'r un profiad wrth fwyta. Mae'n glir fod y rheolwr yn goruchwylio'r cartref yn rhagorol; gwelsom fod archwiliadau ar bob agwedd ar y gwasanaeth, gan gynnwys yr amgylchedd cyfan, yn cael eu cwblhau bob mis. Mae cofnodion y cyfarfodydd staff yn dangos bod y rheolwr yn sgwrsio â'r staff am gadw'r amgylchedd ar ei orau, gan gynnwys rhoi gwybod i'r tîm rheoli os bydd angen gwneud unrhyw waith atgyweirio. Roedd y rheolwr wedi sylwi ar fyrddau sgyrtin a oedd wedi'u marcio ac wedi nodi hyn yn un o'i archwiliadau. Mynegodd siom nad oedd unrhyw aelod o'r staff wedi rhoi gwybod iddo am y mater. Mae'r rheolwr am ymdrin â materion yn gyflym, er mwyn sicrhau bod cyflwr y cartref ar ei orau bob amser.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi yn y cartref, megis yr ystafelloedd ymolchi, i'w gwneud yn fwy golau a modern, ac mae'r coridorau yn cael eu haddurno i ychwanegu at yr ymdeimlad fod y cartref yn deall dementia. Mae'r ardd wedi cael ei llunio i sicrhau bod digon o liw yn ystod y gwanwyn a'r haf ac mae cynlluniau ar waith i drosi tŷ haf yr ardd yn hwb gweithgareddau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y darparwr yn eiddgar i fuddsoddi yn y cartref ac am ei wneud y gorau y gallai fod. Dywedodd yr unigolyn cynnal a chadw wrthym fod y rheolwr yn cytuno y dylai gael unrhyw beth y mae'n gofyn amdano i wella'r cartref.

Dengys y cofnodion fod pob un o'r gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol. Gwelsom dystysgrifau cyfredol ar gyfer diogelwch nwy, gosod trydan a diogelwch dŵr; mae'r cyfarpar tân a'r goleuadau argyfwng wedi cael eu profi ac mae'r lifft a'r teclynnau codi wedi cael eu cynnal.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn dda. Caiff sawl ardal o'r gwasanaeth ei harchwilio gan y rheolwr ac mae'r archwiliadau hynny yn cael eu gwirio eto gan aelod o'r uwch-dîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac mae rheolwr gweithrediadau yn ymweld â'r cartref i gwblhau archwiliadau yn amlach. Mae'r gwiriadau a'r mesurau sydd ar waith yn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol iawn.

Mae trefniadau'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer goruchwylio'r cartref yn rhagorol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Defnyddir gwiriwr cydymffurfiaeth bob mis i wirio cyfradd cydymffurfio'r gwasanaeth â'r rheoliad o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Caiff arolygon eu cynnal i gael barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau. Caiff yr archwiliadau a'r cynlluniau gwella eu harchwilio er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn barhaus. Mae'r rheolwr yn rhagweithiol ac yn ymatebol; mae'n wyliadwrus ac yn gweithredu'n gyflym pan fyddant yn gweld unrhyw beth nad yw'n bodloni'r safonau disgwyliedig. Gwelsom fod hapwiriadau wedi cael eu cynnal yn ystod y nos er mwyn sicrhau bod yr arfer da yn parhau bob awr. Mae'r rheolwr yn gweithredu er mwyn osgoi'r senarios gwaethaf posibl ac yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod yr ymarfer yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r gweithdrefnau gwagio'r adeilad yn cael eu profi'n rheolaidd ac maent yn effeithiol iawn; mae gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn rhannu'r model arfer da hwn er mwyn llywio gwasanaethau eraill.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan niferoedd digonol o staff effeithiol sydd wedi cael eu hyfforddi i gefnogi eu hanghenion, darparu cyfeillgarwch a helpu gyda gweithgareddau. Mae gweithdrefnau recriwtio effeithiol ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas ar gyfer eu rolau. Dengys y cofnodion yr eir i'r afael â geirdaon a chaiff gwiriadau datgelu eu cwblhau bob amser. Mae tracwyr system cyfrifiadurol y gwasanaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheolwr am gynnydd o ran hyfforddiant ac yn helpu i nodi lle y gall fod angen cyrsiau gloywi. Gwelsom gyfradd cwblhau hyfforddiant rhagorol a oedd yn sicrhau bod y staff yn gymwys. Mae'r rheolwr bob amser yn weladwy yn y cartref ac yn cael ei ganmol gan y staff am ei ddull '*hands on*' . Gwnaethom siarad â thri aelod o'r staff, ac roeddent yn canmol y tîm rheoli yn y cartref a'i gilydd; maent yn gweithio'n dda fel tîm ac yn teimlo y cânt eu parchu'n hafal beth bynnag fo'u rôl. Clywsom adolygiadau rhagorol gan berthnasau'r bobl yn y cartref. Mae pawb yn gwbl fodlon ar y gofal a ddarperir, ac mae rhai wedi synnu at lefel y cynnydd y mae'r bobl sy'n byw yno wedi'i wneud. Mae'r bobl yn canmol y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r gofal a'r tosturi a ddangosir. Mae'n werth nodi bod cartref Sandford yn un o'r 20 Uchaf o Gartrefi Gofal yng Nghymru 2023 (fel y'i gwobrwywyd gan carehome.co.uk).

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/12/2023